



At holl Brif Swyddogion Cynllunio Awdurdodau
Lleol ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol a'r
ymgyngoreion ar y rhestr graidd

Ein cyf :
Dyddiad : 22 Hydref 2010

Annwyl Gyfaill,

Yr Awdurdod Glo – Dull Seiliedig ar Risg o Reoli Datblygu yn y Meysydd Glo

Fel y gwyddoch, mae'r Awdurdod Glo wedi datblygu dull seiliedig ar risg o godi ymwybyddiaeth a rheoli'r materion yn ymwneud ag etifeddiaeth mwyngloddio o fewn yr holl awdurdodau cynllunio meysydd glo lleol ar draws Cymru (yn ogystal â Lloegr a'r Alban). Mae'r dull gweithredu hwn yn un elfen o amcan corfforaethol yr Awdurdod Glo, sef mynd ati i ddsbarthu ystod o wybodaeth am fwyngloddio a chydweithio'n agosach â chyrff cyhoeddus.

Rwy'n argymhell y dylid rhoi'r dull gweithredu hwn ar waith cyn gynted ag y bo modd a meithrin perthynas waith gadarnhaol gyda'r Awdurdod Glo.

Mae'r Awdurdod Glo'n ymgynghorai statudol ar gyfer datblygiadau o fewn yr ardaloedd mwyngloddio a ddiffinnir o dan Erthygl 10(j) o Orchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir 1995 (fel y'i diwygiwyd). Cynhaliwyd cyfarfodydd rhwng yr Awdurdod Glo ac awdurdodau cynllunio lleol meysydd glo Cymru yn gynharach eleni er mwyn cyflwyno'r dull gweithredu newydd. Unwaith y bydd y Memorandwm Dealltwriaeth wedi'i lofnodi (er mwyn caniatáu rhyddhau'r data newydd) bydd yr Awdurdod Glo'n cyhoeddi Pecyn Gwybodaeth (Dull Seiliedig ar Risg o Reoli Datblygu, Adnoddau ar gyfer Awdurdodau Cynllunio Lleol, Fersiwn 1, 2010) ynghyd â Chynlluniau a Data Atgyfeirio Datblygiadau Mwyngloddio 2010. Cyhoeddwyd Cynlluniau Ardaloedd Atgyfeirio Datblygiadau Mwyngloddio ar wefan yr Awdurdod Glo ar 14 Hydref 2010. (Bydd yr Awdurdod Glo'n anfon e-bost yn fuan i bob awdurdod cynllunio lleol gyda dolen i'r cynlluniau.)

Mae'r dull seiliedig ar risg o reoli datblygu a phenderfynu ceisiadau cynllunio'n darparu ffordd systematig a chyson o gyflawni gofynion paragraff 13.9.1 o Bolisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 3, Gorffennaf 2010), sy'n datgan fel a ganlyn:

"Mae angen i benderfyniadau cynllunio ystyried:

- y perygl posibl y gallai ansadrwydd ei achosi i'r datblygiad ei hun, i'w ddeiliaid ac i'r amgylchedd lleol*
- canlyniadau archwiliad ac asesiad arbenigol gan y datblygwr i ddarganfod sadrwydd y tir ac i ddynodi unrhyw fesurau lliniaru sy'n angenrheidiol i fynd i'r afael ag unrhyw ansadrwydd."*


Y sail ar gyfer y dull hwn yw diffinio'r ardaloedd o fewn y maes glo lle mae risgiau gwirioneddol yn bodoli yn gysylltiedig â gweithgareddau mwyngloddio'r gorffennol. Dylai'r dull hwn gyfyngu'r baich ar yr awdurdodau cynllunio lleol mewn perthynas â'r gofynion ymgynghori statudol i'r ardaloedd hynny lle mae'n rhaid i'r Awdurdod Glo wneud sylwadau, yn hytrach nag i'r holl geisiadau cynllunio o fewn y maes glo cyfan.



Gofynnaf i chi drosglwyddo cynnwys y llythyr hwn i'r holl bartïon priodol o fewn eich awdurdod.

Mae copi o'r llythyr hwn ar gael ar www.cymru.gov.uk/cynllunio.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink that reads "Rosemary Thomas". The signature is written in a cursive style with a large initial 'R'.

ROSEMARY THOMAS
Prif Gynlluniwr/Dirprwy Gyfarwyddwr
Adran yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai